**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 27 GORFFENNAF 2016 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:30)**

**Aelodau CFfDLC yn Bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn Bresennol:** Anthony Barrett

**Cynrychiolwyr Deloitte yn Bresennol:** Ian Howse
Katherine Shafer

**Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Bresennol:** Lisa James

**Swyddogion CFfDLC yn Bresennol:** Steve Halsall (Prif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd ymddiheuriadau ar ran Matthew Redmond (CFfDLC).

**2. Datganiadau o Fuddiant**

2.1 Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2016.**

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2016.

**4. Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol.**

4.1 Nododd y Pwyllgor fod yr holl eitemau a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau erbyn hyn neu yn rhai i ddelio â nhw nes ymlaen ar yr agenda.

**5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

5.1 Adroddwyd bod y Cynllun Gwaith wedi'i ddrafftio ar gyfer 2016-17 a'i fod yn cynnwys yr holl eitemau y nodwyd eu bod yn ofynnol mewn cyfarfodydd blaenorol. Nodwyd fod y prawf ar y Cynllun Parhad Busnes a oedd i'w gynnal yn y gwanwyn wedi'i ohirio ar gyfer 2016-17. Y rheswm am hyn oedd y bwriad i gau Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) Llywodraeth Cymru na fyddai ar gael mwyaf felly fel adeilad arall i'r CFfDLC pe bai Tŷ Hastings yn anhygyrch. Fodd bynnag, roedd y mater wedi'i drafod gydag isadran noddi CFfDLC a oedd wedi cytuno, pe bai argyfwng, y byddent yn darparu desgiau sbâr a chaledwedd TG yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru i staff CFfDLC. Byddai'r trefniant amgen hwn yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Parhad Busnes wedi'i ddiweddaru ac mewn

unrhyw brofion yn y dyfodol. Byddai'r Cynllun Parhad Busnes ar gyfer 2016-17 yn symud ymlaen nawr ar sail y trefniadau argyfwng newydd ac adroddir y canlyniad i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn**: 31 Hydref 2016

5.2 Nodwyd y bu'n arfer gan yr archwilwyr allanol blaenorol i gyhoeddi adroddiad Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol i gyfarfod haf y Pwyllgor, ac ar ôl hynny, y Llythyr Rheoli i gyfarfod yr hydref. Fodd bynnag, arfer Swyddfa Archwilio Cymru oedd cyhoeddi un adroddiad archwilio, yn cynnwys y Llythyr Rheoli, yn yr haf, ac felly nid oedd gofyniad mwyach am eitem ar wahân ar y Cynllun Gwaith i ddelio â'r Llythyr Rheoli yn ystod yr hydref. **Cytunwyd** y dylid diwygio'r Cynllun Gwaith i ddileu'r eitem hon.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 23 Tachwedd 2016

## 6. Cylch Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

6.1 Adroddwyd bod adolygiad blynyddol i'w gynnal o Gylch Gwaith y Pwyllgor ac ystyriwyd hynny. Roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd angen brawddeg olaf paragraff 1.1 ynglŷn â newid enw'r Comisiwn mwyach. **Cytunwyd** y dylai'r frawddeg hon gael ei dileu.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2016

6.2 Nodwyd bod y manylion ym mharagraff 1.3 yr uwch swyddog o isadran noddi Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am y Comisiwn wedi dyddiol. **Cytunwyd** y byddai'r manylion yn cael eu diweddaru.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2016

## 7. Arolygon Etholiadol CFfDLC – Cyhoeddiad y Gweinidog.

7.1 Adroddwyd bod Gweinidog Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau datganiad yn ystod mis Gorffennaf yn cyhoeddi fod CFfDLC i ddechrau arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y 22 prif gyngor yng Nghymru, i'w gwblhau mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol i'w cynnal ym mis Mai 2022.

7.2 Nodwyd y datblygiad hwn gan y Pwyllgor ac adroddwyd bod CFfDLC wrthi'n cynllunio amserlen yr arolwg ac yn amcangyfrif gofynion staffio a chyllideb y dyfodol er mwyn cwblhau'r arolwg erbyn terfyn amser y Gweinidog. **Cytunwyd** y byddai CFfDLC yn rhoi gwybodaeth gyson i'r Pwyllgor ynglŷn â chynnydd yr arolygon ac unrhyw newidiadau i ofynion cyllideb.

## 8. Cyfrifon Blynyddol 2015-16 ac Adroddiad yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a'r Llythyr Rheoli.

8.1 Adroddodd y Rheolwyr Cyllid y prif bwyntiau i'w nodi ar y cyfrifon archwiliedig i'r Pwyllgor, gan gynnwys y prif feysydd incwm a gwariant ac amrywiannau ar wariant y flwyddyn flaenorol.

8.2 Adroddodd Anthony Barrett, er bod y cyfrifon o safon dda iawn yn gyffredinol, gwnaed rhai newidiadau i'r cyfrifon drafft. Newidiadau i'r ffigurau yn y nodiadau i'r

cyfrifon oedd y rhain i wella cost amcangyfrifedig y brydles TG yn y dyfodol ac i gynnwys mwy o wybodaeth am drafodion partïon cysylltiedig, a hefyd nodiadau ychwanegol i gwmpasu prisiad o asedau sefydlog a safonau cyfrifyddu nad ydynt yn weithredol eto. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro a dim materion arwyddocaol eraill i'w hadrodd, ac, yn amodol ar dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i lofnodi gan y Comisiwn, roedd yn fwriad gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw argymhellion archwilio yn codi o'r gwaith archwilio, ac y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal ymarferiad dysgu ôl prosiect i nodi unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer yr archwiliad o'r cyfrifon.

8.3 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Barrett am ei adroddiad.

## 9. Cynllun Archwilio Mewnol 2016-17

9.1 Cyflwynodd Kath Shafer Gynllun Archwilio Mewnol Deloitte ar gyfer 2016-17 ymlaen. Byddai'r gwaith archwilio mewnol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2016-17 yn cwmpasu Systemau Cyllid, Llywodraethu Corfforaethol a dilyniad fel arfer ynghyd â Diogelwch Gwybodaeth a Rheolaethau Cyffredinol TG. Nododd y Pwyllgor y gwaith archwilio mewnol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2016-17.

9.2 Nodwyd bod y cynllun wedi'i newid yn flaenorol i symud yr archwiliad o waith arolwg CFfDLC yn ôl i 2018-19 a dod â'r archwiliad o adnoddau dynol ymlaen i 2017-18 oherwydd yr ansicrwydd yn ymwneud ag ad-drefnu llywodraeth leol ac oedi o ran cychwyn yr arolwg etholiadol. Roedd y Pwyllgor o'r farn fod cyhoeddiad diweddar Gweinidog Llywodraeth Cymru ynghylch dechrau arolwg CFfDLC o drefniadau etholiadol llywodraeth leol yn golygu y byddai'n ddymunol i'r archwiliad mewnol o arolygon y comisiwn i ddechrau yn 2017-18 yn hytrach na 2018-19. Ystyriwyd hefyd y dylai'r gwaith archwilio hwn fod yn ychwanegol ar yr archwiliad presennol o arolygon y comisiwn yn 2018-19 a 2019-20. Cynigiwyd y byddai'r cynllun archwilio mewnol yn cael ei ddiwygio i gynnwys 2.5 diwrnod ychwanegol ar gyfer archwiliad o arolygon y comisiwn yn 2017-18.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid / Deloitte **Erbyn**: 23 Tachwedd 2016

## 10. Adroddiad Cynnydd Hunanasesiad Blynyddol 2015-16 y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

10.1 Adroddwyd bod dau bwynt wedi codi o ymarferiad hunanasesu blynyddol y Pwyllgor, ac aethpwyd i'r afael â nhw fel a ganlyn:

- Roedd yr holiadur hunanasesu wedi'i ddiwygio i egluro bod cwestiynau'n ymwneud â thelerau ac amodau penodi ond yn berthnasol mewn perthynas ag aelodau annibynnol; ac
- Roedd cwrs hyfforddi'r pwyllgor archwilio wedi'i drefnu erbyn hyn mewn ymateb i'r angen dynodedig am hyfforddiant ar gyfer yr aelod pwyllgor newydd.

10.2 Nodwyd y cynnydd gan y Pwyllgor, a nodwyd pwyntiau o'r ymarferiad hunanasesu.

## 11. Asesiad o Archwilwyr Mewnol Blynyddol CFfDLC 2015-16.

11.1 Adroddwyd bod Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cwblhau eu hasesiad blynyddol o'r archwilwyr mewnol ar gyfer 2015-16. Nododd y Pwyllgor gasgliadau'r asesiad, sef bod annibyniaeth a pherfformiad yr Archwilwyr Mewnol o safon uchel ac wedi bodloni'r safonau'n ymwneud â sicrhau ansawdd.

## 12. Argymhellion Archwilio – Adroddiad Cynnydd.

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar argymhellion yr archwilwyr mewnol a oedd heb eu cyflawni eto. Nodwyd bod yr argymhellion heb eu cyflawni ar gyfer 2012-13 a 2014-15 yn ymwneud ag arolygon y Comisiwn ac felly nid oedd modd cyflwyno tystiolaeth ohonynt fel argymhellion wedi'u gweithredu hyd nes bod cryn waith wedi'i wneud mewn perthynas ag arolygon. Fodd bynnag, yng ngolau cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ynghylch dechrau arolygon, rhagwelwyd y byddai'r argymhellion hyn yn cael eu cadarnhau fel argymhellion wedi'u gweithredu maes o law.

12.2 Roedd un argymhelliad heb ei gyflawni ar gyfer 2015-16, sef y dylai CFfDLC ddiweddaru ei adolygiad o reoli perfformiad staff i ddangos yn glir sut oedd amcanion aelodau staff unigolyn yn cysylltu ag amcanion corfforaethol CFfDLC. Nodwyd y byddai'r amcanion corfforaethol yn cael eu hadolygu a'u hailddrafftio yn awr o ganlyniad i gyhoeddiad Gweinidog Llywodraeth Cymru, ac felly ni fyddai modd gweithredu'r argymhelliad hwn hyd nes diwedd blwyddyn adrodd staff 2016-17. Cynigiwyd felly bod dyddiad y terfyn amser ar gyfer gweithredu'r argymhelliad hwn yn cael ei newid i 31 Mawrth 2017. **Cytunwyd** y byddai dyddiad y terfyn amser ar gyfer yr argymhelliad hwn yn cael ei newid fel y cynigiwyd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 23 Tachwedd 2016

## 13. Safonau Archwilio Mewnol Gwasanaeth Cyhoeddus – Fersiwn Newydd

13.1 Nododd y Pwyllgor y Safonau Archwilio Mewnol Gwasanaeth Cyhoeddus newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a'r newidiadau. Cadarnhaodd Ian Howse na fyddai'r newidiadau yn cael unrhyw effaith ar y ffordd yr oedd y gwaith archwilio mewnol yn cael ei gyflawni ar gyfer CFfDLC.

13.2 Holodd y Pwyllgor p'un a oeddent yn cydymffurfio â Safon 1111 yn ymwneud â rhyngweithio uniongyrchol â'r bwrdd. Atebodd Mr Howse fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynrychioli CFfDLC fel is-bwyllgor yn ddigonol i gwmpasu gofyniad y safon hon.

13.3 Codwyd mater asesiad allanol cyfnodol o'r archwilwyr mewnol a fynnir gan Safon 1312 gan y Pwyllgor, ac ystyriodd beth yw'r modd gorau o gydymffurfio â'r safon hon. Dywedodd Mr Howse y byddai'n barod i gysylltu â darparwyr archwilio mewnol ar gyfer Cyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru i geisio archwilio trefniadau ar y cyd posibl ar gyfer sicrhau cydymffurfio â'r safon hon. **Cytunwyd** y

byddai Mr Howse yn gwneud ymholiadau gyda darparwyr archwilio mewnol Cyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.
**Gweithredu**: Deloitte **Erbyn**: 23 Tachwedd 2016

## 14. Materion Adeiladau – Ardal Gwella Busnes Caerdydd

14.1 Adroddwyd fod CFfDLC wedi sefydlu ei fod yn atebol i'w gynnwys yn Ardal Gwella Busnes arfaethedig Caerdydd, ac am y tâl blynyddol cysylltiedig. Nodwyd y datblygiad hwn gan y Pwyllgor a bod CFfDLC wedi rhoi gwybodaeth gyson i'w isadran noddi, ac wedi cymryd camau i sicrhau'r cyngor cyfreithiol priodol cyn derbyn ei gynnwys yn yr Ardal Gwella Busnes.

## 15. Rhestr Colledion 2015-16

15.1 Nododd y Pwyllgor y colledion ar gyfer 2015-16 a oedd yn fân golledion ac yn ymwneud â'r tâl post anghywir yn cael ei roi ar ddwy eitem post ffrancedig. Roedd y Pwyllgor o'r farn y gellid gwella gweithdrefnau'r Comisiwn ar gyfer cofnodi colledion drwy adran 'gwersi a ddysgwyd' er mwyn nodi pa gamau a gymerwyd neu ba gamau oedd yn yr arfaeth er mwyn osgoi colledion tebyg yn cael eu gwneud yn y dyfodol. **Cytunwyd** y byddai'r Pwyllgor yn cynnig bod CFfDLC yn mabwysiadu gweithdrefn 'gwersi a ddysgwyd' fel rhan o'i rhestr colledion.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 23 Tachwedd 2016

## 16. Adroddiad Rheoli Risg

16.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r cofrestri risg presennol a'r polisi. Adroddwyd manylion y newidiadau a wnaed i'r cofrestri risg Corfforaethol a Gweithredol ers y cyfarfod Pwyllgor diwethaf, gan gynnwys dwy risg Gorfforaethol newydd yn cwmpasu cyhoeddiad yr arolygon etholiadol llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru a'r newid posibl i drefniadau TG. Nodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.

## 17. Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

17.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 28 Mehefin 2016. Adroddwyd ymhellach bod cyllid Swyddfa'r Cabinet ar gyfer gwaith arolygon seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer 2016-17 wedi'i bennu ar £500,000 ac y byddai newidiadau'n cael eu gwneud i'r dyraniadau categori cyllideb i ystyried y disgwyliad i recriwtio staff ychwanegol ar gyfer yr arolygon seneddol a'r arolygon llywodraeth leol.

17.2 Holodd Julie James p'un a oedd CFfDLC wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r risgiau posibl i gyllid CFfDLC yn dilyn pleidlais y refferendwm diweddar i adael yr Undeb Ewropeaidd. **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd yn codi'r mater hwn i'w drafod yng nghyfarfod nesaf Comisiwn CFfDLC.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 23 Tachwedd 2016

## 18. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

18.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion neu letygarwch ar gyfer 2016-17 hyd yma.

## 19. Cwynion

19.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gŵynion wedi'u derbyn ers yr adroddiad diwethaf.

## 20. Adroddiad a Pholisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll

20.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

## 21. Adroddiad Diogelwch Data TG

21.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

## 22. Unrhyw Fusnes Arall

22.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.